

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 151

Rhif 20

Mai 17, 2018

50c.

HANES O'R HEN DESTAMENT YN DENU'R CANNOEDD

Dychmygwch y peth: bron i fil o bobol, dros ddwy noson, yn mynd i weld drama gerdd am hanes o Genesis – a hynny yn Gymraeg! Dyna ddigwyddodd yn theatr fawr Y Lyric, Caerfyrddin ddiwedd mis Ebrill.

Aelodau o gapeli lleol yw Cwmni Myrddin, a fu'n perfformio *Dau Hanner Brawd*. Yr awdur a'r cynhyrchydd oedd Nan Lewis ac Eric Jones oedd y cyfansoddwr. Dyma'r diweddaraaf mewn cyfres o ddramau cerdd o'r eiddo Nan, gyda phob un yn llwyddiant ysgubol. Ac, wrth gwrs, mae dawn Eric fel cyfansoddwr yn hysbys ledled Cymru.

Neges Amserol

Hanes o Genesis, ond gyda neges eithriadol o amserol i'n hoes ni, oedd *Dau Hanner Brawd* – sef Ismael ac Isaac, meibion Abraham. Mae amgylchiadau geni'r ddau yn achosi chwerder a rhwyg yn y llwyth, a gwahanu'r ddau blentyn yn arwain yn y pen draw at greu dwy genedl wahanol sy'n arddel dwy ffydd wahanol, sef Iddewiaeth ac Islam. Er bod y ddwy grefydd yn arddel Abraham fel tad, mae'r rhwyg a'r casineb yn yr hanes yn Genesis yn parhau tan heddiw. Yn y ddrama gerdd, mae Ismael ac Isaac yn cymodi uwchben corff Abraham – golygfa emosiynol a thra effeithiol, dynodd deigrion o sawl llygad.

Yn cymryd rhan

Y prif gymeriadau oedd Dafydd Llŷr Davies (Abraham), Helen Gibbon (Sara), Sioned Beynon (Hagar), Janice Williams (Dorcas), Ann Evans (Miriam), Dafydd Davies (Nachor), Caian Evans (Ismael yn blentyn), Owen Cray (Ismael hŷn) Morgan Cray (Isaac yn blentyn), Dafydd Wyn Davies (Isaac hŷn) a Wyn Maskell (Negesydd/Offeiriad). Roedd bron i hanner cant o gantorion eraill yn y cor. Sioned Evans oedd y cyfarwyddwr oedd yn arwain y canu a'r band o bump o gerddorion.

Roedd y cynulleidfaoedd mawr fu yno ar y ddwy noson wedi cael mwynhâd eithriadol. Yn ôl Nan Lewis roedd rhai pobol wedi dweud wrthi ers hynny iddynt gael eu hysbrydoli i droi at yr Hen Destament am y tro cyntaf ers tro.

I weld llawer mwy o luniau o'r cyflwyniad ewch i: cyfundeb.com/newyddion



*Helen Gibbon (Sara) a
Dafydd Llŷr Davies (Abraham)*

Y PENTECOST

O disgyn, Ysbryd Glân,
O'r nefoedd wen i lawr
I gynnau'r dwyfol dân
Yn ein calonnau nawr

– JJ Williams

PENDERFYNIADAU I GYFARFODYDD BLYNYDDOL YR UNDEB YN ABERAERON, 6-9 MEHEFIN 2018

Bydd dau Benderfyniad gerbron yr Undeb eleni. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'n hunaniaeth a'n parhad fel cenedl mewn cyfnod digon ansicr a chyfnod digon, a'r ail yn galw am degwch i bobl sy'n cynhyrchu'r bwyd yr ydym yn ei fwyta. Cafodd pob eglwys sy'n perthyn i'r Undeb gerdyn pleidleisio gyda manylion y Cyfarfodydd a'r Adroddiadau Blynyddol (y llyfrau glas, gwyrdd a gwyn). Cofiwch drafod y ddau Benderfyniad yn eich capel chi, a sicrhau bod cynrychiolydd o'ch plith yn defnyddio'r cerdyn i bleidleisio yn Aberaeron.

1. DYSGU HANES YN YSGOLION CYMRU

Rhagymadrodd

Ym mis Chwefror 2018 cyflwynwyd deiseb i Lywodraeth Cymru, wedi ei llofnodi gan dros 5,000 o bobl, yn galw arnynt i newid y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn dysgu hanes Cymru o berspectif Cymreig yn ein hysgolion cynradd, uwchradd a'r chweched dosbarth. Cytunwn â hyn, gan fod dyfodol ein cenedl yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ddeall, gwerthuso a dehongli ein gorffennol – y bobl a'r digwyddiadau sydd wedi llunio Cymru heddiw.

parhad ar dudalen 2



Madagascar 1993

Dyma'r drydedd erthygl a'r olaf gan Rhiannon Gregory, Minny Street, Caerdydd, yn adrodd hanes eu hymweliad ag ynys Madagascar.

Mae'r emyn 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' yn dwyn atgofion imi o'r diwrnod hyfrytaf a dreuliais i a Havard ym Madagascar. Cawsom wahoddiad i deithio gyda nifer o rai a ddaeth o'r brifddinas i ymuno yn y dathliadau yn Toamasina i fyny'r arfordir i gyfeiriad man lle roedd gan yr eglwys ganolfan a hynny mewn bae delfrydol. Roedd amddiffynfa naturiol o'i gwmpas yn cadw'r sharks oedd yn gyffredin ar yr arfordir yno allan, ac felly roedd yn ddiogel inni nofio!

Ar ôl teithio tipyn o ffordd, yn sydyn ac yn annisgwyl, dyma'r cerbydau'n aros. Gwelsom eglwys fach bren ac i mewn â ni. Capel bach amrwd ydoedd gyda meinciau i lawr y ddwy ochr hiraf a chroes bren yng nghanol un o'r ochrau ar draws. Yr unig

swm i'w glywed oedd sisial tonnau hir Môr India yn torri ar dywod melyn y traeth y tu allan.

Cododd un o'n plith ac adrodd adnodau ar ei gof ac wedyn cydadroddwyd Gweddi'r Arglwydd, pawb yn ei iaith ei hunan. Wedyn dyma rhywun yn ledio 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' a ninnau'n canu yn Gymraeg a hwythau yn y Falagaseg mewn cyfieithiad o waith Gwyneth Evans, cenhades ac athrawes o Abertawe a fu'n aelod yn Ebenezer, Caerdydd ar un adeg. Inni dyna'r cylch yn gyfan a'r cwlwm rhyngom â Madagascar yn tynhau. Roeddem wedi canu geiriau Ann Griffiths o Ddolwar Fach a ninnau yn meddwl am Mair Griffiths, disgynydd o'r un teulu, a'r holl gysylltiadau â Minny Street lle roedd hi'n aelod.

Bu Mair Griffiths yn brifathrawes ysgol breswyl ddylanwadol yn ne'r ynys am sawl blwyddyn ac un diwrnod ar yr un daith daeth un o'i chyn-ddisgyblion ataf. Bellach roedd hi mewn swydd allweddol yn goruchwylio gwasanaethau nyrsio'r wlad ac yn wraig i weinidog y capel mwyaf yn y brifddinas. Dywedodd gymaint oedd ei

dyled i Gymru. Cymry ddaeth â'r Efengyl i F Madagascar. Cymry yn y pen draw gafodd wared ar gaethweisiaeth drwy ddylanwadu ar y frenhines, a Chymro, David Griffiths, yr ieithydd rhyfeddol o Wynfe, a achubodd yr iaith trwy lunio'r iaith ysgrifenedig yn ffonetig ar batrwm ieithyddol y Gymraeg ac a gyfieithodd y Beibl i'r Falagaseg yn union fel y gwnaeth William Morgan drosom ni. Roedd hi'n falch o gael y cyfle i ddatgan ei diolch i Gymru.

Yn fuan wedi'r diwrnod hwnnw roeddem yn cychwyn ar ein ffordd yn ôl i'r brifddinas ac wedi treulio ychydig ddyddiau yno roedd yn bryd inni ddod nôl i Gymru ond roedd y profiad o ymweld â Madagascar wedi newid ein bywydau. Ni allem fyth anghofio cynhesrwydd y croeso gawsom, cyfeillgarwch y bobol, eu hymlyniad wrth eu ffydd, eu cariad at eu hiaith a'u gwlad, a'u gwerthfawrogiad o bopeth wnaeth y cenhaden a Chymry drostynt, ond roedd y tlodi a dioddefaint y bobol yn dristwch mawr parhaol a newidiodd ein ffordd o feddwl am y byd am byth.

Rhiannon Gregory

PENDERFYNIADAU – parhad

Penderfyniad

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o'r farn bod angen i bobl Cymru ddysgu mwy am hanes ein gwlad a chyfraniad ein pobl yn rhyngwladol. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes mewn ysgolion a cholegau yn cael ei ddysgu o safbwynt Cymreig. Yn benodol:

- Hanes lleol sy'n tystio i gyfnodau ac i newidiadau ar hyd y canrifoedd
- Hanes datblygiad ein cenedl, gan gynnwys effaith y dylanwadau allanol
- Dylanwad a chyfraniad llesol ac andwyol Cymru a Chymry at hanes rhyngwladol

Rydym hefyd am weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r datblygiadau a'r digwyddiadau crefyddol sydd wedi cyfrannu gymaint tuag at greu cymeriad ein cenedl.

Wrth i Lywodraeth Cymru drosi gweledigaeth Adroddiad Donaldson (*Dyfodol Llwyddiannus*, 2015) yn realiti, rhaid sicrhau bod ei gyfeiriadau brith at 'Ddimensiwn Cymreig' yn cael eu gwreiddio yn y maes llafur hanes.

Bydd hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru, yn ogystal â'r byd.

Cynigydd: Y Parchg Aled D. Jones

Eilydd: Y Parchg Guto Llywelyn

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

2. NWYDDAU MASNACH DEG

Rhagymadrodd

Mae aelodau Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin wedi nodi gyda phryder bod nifer y nwyddau Masnach Deg sydd ar gael yn yr archfarnadoedd ac yn ein siopau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hyn, daeth yn amlwg bod sawl cynnyrch masnachol oedd yn arfer bod a marc y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt bellach yn cael eu gwerthu heb warant y cynllun.

Penderfyniad

Nodwn gyda phryder bod nifer y nwyddau Masnach Deg sydd ar gael yn yr archfarnadoedd ac yn ein siopau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hyn, daeth yn amlwg bod sawl cynnyrch masnachol oedd yn arfer bod â marc y Sefydliad Masnach Deg arnynt bellach yn cael eu gwerthu heb warant y cynllun.

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn galw ar siopau bychain a mawrion Cymru i sicrhau bod y nwyddau a werthir ganddynt, sy'n dod o wledydd sy'n datblygu, wedi eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n deg i'r gweithwyr a'u cymunedau. Credwn os nad yw ein nwyddau yn rhai o farchnad deg, mae'n debyg eu bod yn rhan o farchnad annheg sy'n ecsbloetio pobl dlawd ein byd. Er mwyn sicrhau tegwch, y mae'n hanfodol bod y cynnyrch wedi ei gymeradwyo gan, ac wedi derbyn marc, y Sefydliad Masnach Deg (Fairtrade Foundation). Dyma'r unig farc dilys sy'n sicrhau mwy o'r elw i'r cynhyrchwyr. Mae hefyd yn sicrhau gwell amgylchiadau gwaith i'r gweithwyr, cyfran o elw'r cynnyrch i sicrhau addysg i blant a gofal iechyd i gymunedau, tra ar yr un pryd



Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus

Tlysau Cyfundeb Lerpwl 2018 sydd i'w chynnal yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron ar fore Sadwrn, 9 Mehefin 2018

Llunio rhestr derfynol o'r cystadleuwyr

Os oes pobl ifanc o'ch eglwys chi am gystadlu, a fydddech mor garedig â ffonio Tŷ John Penri (01792-795888) cyn 25 Mai naill ai i gyflwyno neu i gadarnhau eu henwau.

Diolch yn fawr
Geraint Tudur

Ysgrifennydd Cyffredinol

yn atal llafur plant i ddod a'r cynnyrch i ni.

Rydym yn ymrwymo i annog ein heglwys i addo o'r newydd i ddefnyddio nwyddau Masnach Deg ac i ymgyrchu dros degwch mewn masnach ar draws ein byd. Cydnabyddwn ein rhan yn y gyfundrefn annheg sy'n manteisio ar dlodi eraill.

Galwn ar y cynhyrchwyr a'r siopau i ehangu ystod y nwyddau a werthir ganddynt sydd a'r marc Masnach Deg (Fairtrade Foundation) arnynt, ac ar Masnach Deg Cymru (fairtradewasles.com/we/) i wneud arolwg o'r siopau sydd yn cefnogi Masnach Deg yng Nghymru.

Cynigydd: Y Parchg Aled D. Jones
Eilydd: Y Parchg Tom Defis

Cyflwynir y cynnig ar ran Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

Barn Annibynnol

UNIGRWYDD AC UNIGEDD

Mae Anni Llŷn yn y gerdd 'Ap' yn ei chyfrol i blant, *Dim ond Traed Brain*, yn dangos sut y gall unigrwydd ac unigedd godi ym mywyd un bychan, hyd yn oed yng nghanol cyfoeth yr apiau cynhyrfus sydd ar gael y dyddiau hyn i'w ddi-ddanu. Mae'r gerdd yn agor drwy ddweud:

Mae gen i...
ap arallfydion,
ap adeiladu,
ap dawnsio,
ap canu....

ac yn mynd ymlaen i restru llawer mwy o apiau cyn gorffen fel hyn:

Mae pob ap fel parti
ar fy nheclyn bach hud.
Ond beth yw'r pwynt cael parti
heb ffrindiau yn y byd?

Mae unigrwydd ac unigedd yn her fawr yn ein byd ni heddiw ac yn gallu effeithio ar bobl o bob oed – o'r plentyn ysgol sy'n stryffaglu i wneud ffrindiau, i'r rhiant newydd sy'n ceisio ymdopi wrtho'i hunan, hyd at y person hŷn sydd wedi goroesi'i ffrindiau a'i deulu agos.

Mae hefyd yn fater cymhleth iawn. Mae rhywun yn gallu profi unigedd mewn cymuned wledig, ac unigrwydd mewn ystafell orlawn, ac fel arall. Gall unigrwydd ac unigedd effeithio ar unrhyw un – pobl gyflogedig neu bobl sydd wedi ymddeol, pobl sy'n byw mewn tref, dinas neu bentref. Rydym yn gwybod mor bellgyrhaeddol yw'r broblem gan y gall unigrwydd ac unigedd gael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol, gan arwain at alwadau trwm ar y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae unigrwydd ac unigedd yn gyffredin iawn ymhlith pobl hŷn. Gwyddom fel mae poblogaeth y Deyrnas Unedig yn mynd yn hŷn gyda 18% dros 65 a 2.4% dros 85. Yr amcangyfrif yw y bydd bron i un o bob saith o bobl dros 75 erbyn 2040. Rydym yn gwybod hefyd fod canran uwch o bobl hŷn ym mhoblogaeth Cymru nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'r angen felly i ni ddod i'r afael â phroblem dawel unigrwydd ac unigedd a chynnal pobl hŷn sy'n profi hyn. Mae *Silver Line*, y llinell gymorth rad ar gyfer pobl hŷn, yn barnu fod hyn yn fater y dylid rhoi blaenoriaeth iddo.

Cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar unigrwydd ac unigedd ym mis Rhagfyr 2017 yn dilyn cyfnod o ymchwilio. Mae'n amlygu maint a difrifoldeb y broblem wrth ddatgan:

Mae'r adroddiad Trapped in a Bubble, a gomisiynwyd gan y Groes Goch Brydeinig mewn partneriaeth â'r Co-op, yn dweud bod 18% o bobl yn y DU yn teimlo'n unig 'bob amser' neu 'yn aml' – sy'n cyfateb i

bron i 458,000 o bobl yng Nghymru.

A chanolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn mae ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad. O ystyried bod poblogaeth Cymru'n heneiddio'n gynyddol, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen gweithredu ar frys, fel y dengys argymhelliad cyntaf ei adroddiad:

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r amserlen ar gyfer datblygu ei strategaeth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, gyda'r bwriad o'i chyhoeddi cyn 2019.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod fod llawer o grwpiau eraill o bobl, yn ogystal â phobl hŷn, yn profi teimladau o unigrwydd ac unigedd fel pobl ifainc, cyn-filwyr, rhieni ifainc / newydd, y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar, pobl â chyflyrau cronig, gofalwyr, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT) a phobl o rai cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (DLIE).

Roedd y ddiweddar Jo Cox, aelod Seneddol dros Batley and Spen yn Lloegr, yn ystyried unigrwydd ac unigedd yn broblem fawr. Roedd hi'n gweld hyn yn gallu niweidio iechyd, cyfoeth a hapusrwydd pobl o bob oedran. Aeth ati i ffurfio comisiwn annibynnol yn cynnwys aelodau seneddol trawsbleidiol a nifer o elusennau er mwyn ystyried sut orau i ddelio â'r mater. Ar ôl ei marwolaeth ddisymwth parhaodd ei chydweithwyr â'i gwaith a'i alw'n *Comisiwn Jo Cox ar Unigrwydd*. Buont yn cydweithio dros flwyddyn ar hyn a chyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ar 15 Rhagfyr 2017.

Mae'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn Jo Cox yn bwrw'r rhywd yn ehangach ac yn galw am strategaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig ar unigrwydd ac unigedd ar draws pob oedran a hefyd ddulliau o gadw golwg ar gynnydd wrth ymateb iddi.

Yn sicr, mae argymhellion yr adroddiadau a gynhyrchwyd yn y ddwy wlad yn haeddu sylw manwl ac mae gofyn gweithredu arnynt.

Ond mae yna un argymhelliad arall y gellir ei wneud hefyd – un nad yw'n cael sylw yn yr adroddiadau. Mae'r argymhelliad hwnnw'n ein gwahodd i droi at y Beibl ble cawn ddysgu mwy am addewid Duw i fod gyda ni bob amser, yn ein hunigrwydd a'n hunigedd ac yng nghanol unrhyw dreialon bywyd. Mae Duw'n addo na fydd byth yn ein gadael. Bydd yn gwmni a chyfaill ac yn gefn i ni ym mhob agwedd ar ein bywyd, dim ond i ni ymddiried ynddo, fel y gwnaeth yr emynydd John Roberts:

Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr
heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr.
am law fy Ngheidwad y diolchaf i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

R. Alun Charles

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

YSGOL HAF Y GWEINIDOGION – MEHEFIN 25-27, 2018

Canolfan Halliwell
Coleg Prifysgol Cymru y Drindod
Dewi Sant, Caerfyrddin
Prif thema: *Gweinidogaeth – Yr Alwad*
Cadeirydd: **Beti Wyn James.**

Llun 25

- 4.00 Cyrraedd, cofrestru, coffi.
- 5.00 Seminar: **Yr alwad i weinyddu**
I agor: Alun Tudur, Dewi Myrddin Hughes, Gwyndaf Richards
- 6.30 Swper
- 7.30 Darlith Goffa W. T. Pennar Davies ac R. Tudur Jones
Alun Wyn Bevan: Y Campau ac Ysbryd Brawdol
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

Mawrth 26

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Catrin Haf Williams – Y Defnydd o'r Hen Destament yn y Newydd: Trafodaethau a Datblygiadau mewn Ysgolheictod Gyfoes**
- 12.30 Cinio
- 1.30 Gwibdaith dan ofal **Dyfrig Rees**
- 5.00 Coffi
- 5.30 Cyfarfod Busnes
- 6.30 Swper
- 7.30 Atgofion: **John Lewis Jones**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

Mercher 27

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Noel A. Davies – Gweinidogaeth Gristnogol heddiw: gwreiddiau a gorwelion**
- 12.15 Defosiwn: **Y Cadeirydd**
- 12.30 Cinio

Enwau i'r Ysg. Dyfrig Rees erbyn 5 Mehefin, fan bellaf.
mandydyfrig@btinternet.com 01656 648726.

Noddir yr Ysgol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

YSGOL SADWRN



Cafwyd diwrnod gwych mewn cyfarfod Ysgol Sadwrn, Coleg yr Annibynwyr yng Nghapel Noddfa Bow Street. Ymhlith y materion a gyflwynwyd cafwyd darlith ddifyr gan y Parchg Euros Wyn Jones am ei brofiadau yn India a chwip o bregeth gan Emyr Williams. Diolch i bawb am eu cwmniath.

CWRDD GWEDDI BYD-EANG



Cynhaliodd aelodau eglwys Ebeneser, Rhosymeirch, Sir Fôn, wasanaeth Gweddi Byd-eang y Chwirydd yn ddiweddar. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Chwirydd Cristnogol Swrinam yn dwyn y teitl, 'Mae Cread Duw yn dda iawn i gyd'.

Mae Swrinam, fel llawer gwlad arall, yn dioddef o effeithiau difaol newid hinsawdd. Mae cynhesu byd eang yn golygu eu bod yn gorfod wynebu, sychder, corwyntoedd a stormydd. Yn ystod tymor y glawogydd fe geir llifogydd difrifol ac yn sgil mwyngloddio aur ac arian byw (*mercury*) y mae llawer o'r afonydd yn cael eu difwyno. Mae'n rhaid i Gristnogion bwysu a mesur gwerth cread Duw a'r difrod all ddigwydd trwy ddyfeisiadau pobl.

Gwynfor Roberts

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cyfarfodydd Blynyddol 2018 Cyfundeb Ceredigion Neuadd Goffa, Aberaeron SA46 0DP

DYDD MERCHER 6 Mehefin

- 1.00 CYNHADLEDD 1** Cadeirydd: Y Llywydd, Mr D. Glyn Williams
Defosiwn – Parchg D. Andrew Lenny
5.00 TE CROESO – Gwesty'r Plu, Aberaeron

DYDD IAU 7 Mehefin

- 10.00 CYNHADLEDD 2** **2.00 CYNHADLEDD 3**
4.00 FFORWM AGORED YR UNDEB
7.30 OEDFA O FAWL – capel y Tabernacl, Aberaeron
 Llywydd: Mr D. Glyn Williams. Pregeth: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

DYDD GWENER 8 Mehefin

- 10.00 GWIBDAITH LEOL NEU FFILM**
2.30 OEDFA'R LLYWYDD – y Neuadd Goffa
 Anerchiad gan y Llywydd newydd, Parchg Jill-Hailey Harries
8.00 CYFLWYNIAD gan aelodau a chyfeillion eglwysi Cyfundeb Ceredigion
 Y Freuddwyd – **Canolfan Celaeron, ger Neuadd-Iwyd SA48 7RG**

DYDD SADWRN 9 Mehefin

- 10.00 Defosiwn** – Dr Dafydd Tudur
10.15 Cystadlaethau Cwpan Denman A Thlysau Cyfundeb Lerpwl
 Siarad cyhoeddus a gwobrwyo'r cystadlaethau
11.30 LANSIO APÊL MADAGASCAR
2.00 OEDFA DDATHLU – capel y Tabernacl
 Daucanmlwyddiant glaniad y cenhadon o Gymru ym Madagascar
 Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jill-Hailey Harries
 Pregeth: Parchg Ddr Noel A. Davies
7.30 CYNGERDD DATHLU
 Amrywiol artistiaid o Gymru a Madagascar
Croso cynnes iawn i'r cyfarfodydd ac i'r dathliadau

GOFALAETH NEWYDD

Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont

Yn dilyn bwriad y Parchedigion Andrew Lenny (Seion) a Richard Lewis (Bethel) i ymdeol eleni, wedi blynyddoedd o wasanaeth cydwybodol, mae'r ddwy eglwys annibynnol uchod wedi cytuno i ffurfio gofalaeth newydd o 260 o aelodau. Mae'r eglwysi yn awyddus i roi galwad i

WEINIDOG AMSER LLAWN

i wasanaethu'r ofalaeth newydd. Bydd yn gyfle i wasanaethu mewn tref brifysgol sydd hefyd yn gartref i'r Llyfrgell Genedlaethol a sefydliadau pwysig eraill, ac mewn pentref gwledig, bywiog a Chymreig.

Rydym yn cynnig cydnabyddiaeth deilwng yn ogystal â'r costau arferol, lwfans tŷ, cyfraniad pensiwn ac ati.

Gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i gysylltu â Leon Gibson, Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol Seion am fwy o fanylion.

01970 611834

eirian.gibson@btinternet.com